

**Pecyn Recriwtio 2025**

# Cyfarwyddwr Artistig

# Cyfarwyddwr Artistig

## Diolch am eich diddordeb yn y swydd yma'n Galeri

Mae Galeri Caernarfon Cyf yn ganolfan gelfyddydol fywiog yng nghalon tref Caernarfon sydd yn cyfrannu bron i £2.5m y flwyddyn i'r economi leol trwy brosiectau cynaliadwy a chreadigol sydd yn gwireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal.

Mae gwreiddiau'r cwmni'n dyddio nôl i'r 90au, ond ers agor drysau'r Ganolfan yn 2005, mae'r cwmni wedi datblygu'n ganolbwynt creadigol i Ogledd Cymru, gyda rhaglen gelfyddydol eang yn cynnwys theatr, ffilm, celf weledol a gweithgareddau cymunedol.

Bellach, mae'r adeilad yn cynnwys theatr, sinemâu, 24 o unedau swyddfa, oriel, stiwdios artistiaid, ystafelloedd ymarfer, ystafelloedd cyfarfod, café bar a mannau cymunedol.

Fel sefydliad di-elw, rydym yn ymrwymedig i sicrhau cysylltiad cryf â'r gymuned leol,  i'r iaith Gymraeg ac gynhwysiant. Rydym yn edrych tua'r dyfodol gyda gweledigaeth glir: i fod yn ganolfan arloesol flaenllaw lle mae popeth yn bosibl drwy feddwl yn greadigol, gweithredu'n gynaliadwy a chydweithio gyda'n gilydd.

Gan adeiladu ar y weledigaeth hon mae Galeri Caernarfon Cyf yn edrych am arweinydd creadigol gyda gweledigaeth artistig gref i ymuno â'n tîm blaenllaw fel Cyfarwyddwr Artistig. Dyma rôl allweddol yn ein sefydliad sy'n ganolog i fywyd diwylliannol ac artistig gogledd orllewin Cymru.

Fel **Cyfarwyddwr Artistig**, byddwch yn gyfrifol am lunio ac arwain y weledigaeth greadigol ar draws holl elfennau'r rhaglen – o ddrama a dawns, i gerddoriaeth, ffilm ac arddangosfeydd, gan ymestyn apêl ac enw da'r Cwmni yng Nghymru a thu hwnt, ac adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus ac effeithiol sydd yn rhan o lwyddiant Galeri.

Bydd y rôl yma yn gofyn am arweinyddiaeth strategol, sensitifrwydd artistig, a'r gallu i feithrin partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd ein Cyfarwyddwr Artistig yn cyd-weithio'n agos gydag ein Prif Weithredwr, yr uwch dîm rheoli a'r Bwrdd i sicrhau bod y weledigaeth artistig yn unol â'n strategaeth gyffredinol.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol a phrofiad cadarn o arwain mewn rôl greadigol neu artistig gyda greddf gref ar gyfer creu cynnwys, gyda brwdfrydedd dros gelfyddyd gyfoes, ac ymrwymiad i wneud y celfyddydau'n agored ag yn hygyrch i bawb.

# Pam gweithio i’r Galeri?

Gweledigaeth Galeri Caernarfon yw, i fod yn ganolfan arloesol flaenllaw lle mae popeth yn bosibl drwy feddwl yn greadigol, gweithredu’n gynaliadwy a chydweithio gyda’n gilydd. Mae Galeri yn credu’n gryf bod gan y celfyddydau'r gallu i gysylltu pobl, sbarduno sgyrsiau, ac ysbrydoli newid. Dyna sy’n greiddiol i’w weledigaeth.

**Mae’r weledigaeth hon yn adeiladu ar dri philer allweddol:**

## 1 Creadigrwydd a rhagoriaeth artistig

Darparu rhaglen eang a chyrhaeddgar sy’n cynnwys theatr, ffilm, celf weledol, cerddoriaeth a digwyddiadau cymunedol sy’n adlewyrchu ac yn herio’r byd o’n cwmpas.

## 2 Cysylltiad cymunedol

Bod yn ganolbwynt i'r gymuned leol, yn hyrwyddo’r Gymraeg, yn cynnig mynediad cyfartal i bawb, ac yn meithrin cyfranogiad o oedrannau a chefndiroedd amrywiol.

## 3 Cynaliadwyedd ac arloesedd

Bod yn sefydliad sy’n gweithredu’n foesegol ac yn gyfrifol, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol, wrth arwain gyda syniadau newydd.

Mae rhagor o wybodaeth am y swydd a’r cwmni i’w gweld yn y pecyn.
Os gallwch weld eich hun yn cyflawni’r swydd bwysig hon, darllenwch weddill y pecyn a chyflwynwch eich cais. Edrychwn ymlaen at ei dderbyn



# Amdanom ni

Mae Galeri Caernarfon Cyf (Cwmni Tref Caernarfon Cyf gynt) yn fenter gymunedol ddi-elw sydd hefyd yn gweithredu fel Ymddiriedolaeth Datblygu.

Mae gan y Cwmni Fwrdd o Gyfarwyddwyr cryf, gyda sawl penodiad diweddra i'r Bwrdd yn cynrhychioli cefndir **artistig, lletygarwch, eiddo, cyfraith** ... sydd wedi ymrwymo i ffyniant y cwmni.

Rheolir y cwmni o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr sy'n cydweithio'n agos gyda'r tîm rheoli sy'n gyfrifol am eu portffolio o waith, sy'n cynnwys portffolio artistig, portffolio cyllid a busnes, portffolio gweithrediadau, a portffolio datblygu. Mae'r cwmni yn cyflogi dros 40 aelod o staff ar draws y portffolios hyn.

**Gweledigaeth Galeri Caernarfon Cyf yw bod:**

*Unrhyw beth yn bosibl, drwy feddwl yn greadigol a gweithredu yn gynaliadwy.*

**Er mwyn gwireddu'r weledigaeth bydd y cwmni yn:**

*Gweithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd greadigol i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'r cyffiniau.*

Sefydlwyd y cwmni dan enw **Cwmni Tref Caernarfon** yn 1992, gyda'r bwriad o wella'r dref gan ymgymryd â'r dasg o drawsnewid ac ailwampio rhai o adeiladau blêr a gwag y dref. Mae'r gwaith datblygu yn y dref yn parhau hyd heddiw gydag eiddo a phrosiect adfywio Cei Llechi yn rhan o ddatblygidau'r Cwmni.

Mae gweithio i Galeri Caernarfon Cyf yn gyfle i ymuno â sefydliad sydd, nid yn unig, yn ganolfan gelfyddydol flaenllaw yng Ngogledd Cymru, ond sydd hefyd yn gatalydd i newid cymdeithasol, creadigrwydd a chynhwysiant.

Mae'n lle sy'n rhoi gwir ystyr i gysylltu'r celfyddydau â chymuned, lle mae'r Gymraeg yn greiddiol i'w hunaniaeth, ac mae'r amgylchedd yn un sy'n meithrin syniadau beiddgar ac arloesol.

Mae'r cyfan mae'r cwmni'n ei gyflawni yn digwydd o ganlyniad i ymdrechion ein tîm o bobl, gan gynnwys ein staff cyflogedig. Mae creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol yn bwysig iawn inni fel cwmni, ac rydym yn darparu cefnogaeth i'n staff fel eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith hyd orau eu gallu. Mae lles ein staff yn hollbwysig inni.

Hyd yma, mae'r cwmni wedi adnewyddu **dros ugain o adeiladau oedd wedi eu hesgeuluso** yn y dref, gyda tenantiaid lleol yn gosod pob un.

Mae'r Cwmni yn derbyn arian gan yr **Architectural Heritage Trust** i gefnogi'r gwaith hwn bob blwddyn, am gyfnod o tair blynedd.

Yn debyg, mae rhaglen artistig y cwmni yn cael ei ariannu'n rhannol gan **Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Gwynedd a Ffilm Cymru Wales.**

Cyngor Celfyddydau Cymru yw un o brif arianwyr y cwmni, ac mae'r cwmni'n dennu grant o **£320,000 y flwyddyn.**

Cytunir ar dargedau blynyddol yn y Cytundeb Ariannu sy'n ymwneud â'r penawdau canlynol;

**Creadigrwydd**

**Ehangu ymgysylltiad**

**Y Gymraeg**

**Cyfiawnder Hinsawdd**

**Meithrin Talent**

**Trawsnewid**

# Beth sydd gan Galeri i'w gynnig

Galeri Caernarfon yw un o ganolfannau celfyddydol mwyaf deinamig Cymru, ac mae'n cynnig profiadau diwylliannol cyfoethog, amrywiol ac estynedig i gynulleidfaoedd o bob oedran a chefndir. **Ymhlith yr hyn sydd ar gael:**

## Perfformiadau Byw

Theatr gyfoes, drama Gymraeg, dawns, cerddoriaeth fyw a chomedi.

Cynyrchiadau gan gwmnïau lleol a chenedlaethol, ynghyd ag artistiaid rhyngwladol.

## Sinemâu

Dwy sinema bwrpasol yn dangos ffilmiau prif ffrwd, ffilmiau annibynnol, dogfennau a ffilmiau Cymraeg.

Rhaglen i gynulleidfaoedd ifanc, teuluoedd ac ysgolion.

## Celf Weledol

Oriel reolaidd gyda gwaith gan artistiaid lleol, cenedlaethol ac o'r tu hwnt.

Digwyddiadau agoriadol, trafodaethau a gweithdai cysylltiedig.

## Gweithgareddau Cymunedol a Theuluol

Gweithdai creadigol, sesiynau cyfranogi, gweithgareddau i bobl ifanc a chymunedau dan anfantais.

Rhaglenni arbennig fel Sbarc, a phrosiectau ieuenctid a digwyddiadau cynhwysol.

## Profiad Dwyieithog a Chroesawgar

Gwasanaeth dwyieithog Cymraeg a Saesneg.

Croeso cynnes, hygyrchedd da, a mynediad hawdd i'r adeilad i bawb.

## Profiad Diwylliannol Lawn

Caffi, bar a mannau cymdeithasol yn cynnig lle i ymlacio a chwrdd.

Amgylchedd bywiog ac ysbrydoledig sy'n gweddu i berfformio, dysgu neu gymdeithasu.

# Uchafbwyntiau Galeri 2024/2025

Dyma gipolwg clir ar ddigwyddiadau, celf a phrosiectau addysgiadol pwysig a gyflwynwyd gan Galeri dros y flwyddyn ddiwethaf.

**£536,973.20**

**Cyfanswm y Refeniw (£)** Gwerthiant digwyddiadau byw yn unig

**67,642.00**

**Cyfanswm nifer y tocynnau**

**13,040.00**

**Cyfanswm y cwsmeriaid unigryw**

**2,265.00**

**Cyfanswm y digwyddiadau unigryw**

### AGORED 2024
### Safle Creu / Y Wal

Arddangosfa agored a ddangosodd dros 60 o weithiau o arlunwyr o Gymru a'r Deyrnas Unedig rhwng Tachwedd 2024 a Ionawr 2025. Cafodd Hannah Mefin y prif wobr £1,000.

### Ar Y Ffrâm:
### Notions & Nuances

Gosodiad acwstig gan Thomas James o Fedi 2024 hyd Ionawr 2025, gan archwilio syniadau o symud a diffinio lefel rhwng yr ysbrydol a'r corfforol.

### Marchnad Nadolig Galeri

Eleni mae'r farchnad wedi tyfu i gynnwys dros nifer o safleoedd yn y dref (gan gynnwys Pafiliwn y Galeri), gyda stondinau bwyd, crefftau a sgriniau, gan greu digwyddiad trefol atyniadol.

### Sbarc - Clwb Drama

Rhaglen gyson i blant a phobl ifanc, gan gynhyrchu bodleuon megis Y Goedwig Hud a Grîs yn 2024, gan feithrin talent lleol yn barhaus.

## Manylion y swydd

# Cyfarwyddwr Artistig

| | |
|---|---|
| Cyflog: | **£45,000 - £50,000** a buddion cystadleuol |
| Cyfnod: | **Llawn amser** (37 awr yr wythnos) |
| Yn adrodd i: | **Prif Weithredwr** |
| Lleoliad: | **Caernarfon** |

**I wneud cais am y swydd hon, rydyn ni eisiau ichi ddangos:**

Eich bod yn arweinydd hyderus sy'n gallu ysbrydoli ac arwain eraill yn effeithiol.

Bod gennych lygad am ddewis gwaith creadigol ac angerdd dros y celfyddydau cyfoes.

Eich bod yn ymrwymedig i sicrhau bod y celfyddydau'n agored i bawb, gyda phwyslais ar gynhwysiant, hygyrchedd ac ymgysylltu cymunedol.

Eich bod â sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Eich bod â phrofiad o reoli cyllidebau yn effeithiol ac o gydweithio'n adeiladol gyda thimau amrywiol o fewn sefydliad.

# Prif Ddiben y Swydd

1. Datblygu a gweithredu gweledigaeth artistig  Galeri a strategaeth greadigol hirdymor.
2. Creu rhaglen arloesol ac amrywiol o berfformiadau byw, ffilmiau, arddangosfeydd a phrosiectau cymunedol.
3. Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan feithrin cydweithrediadau rhyngwladol a diwylliannol.
4. Adeiladu perthnasau gydag artistiaid, cwmnïau a phartneriaid diwylliannol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.
5. Rheoli cyllidebau artistig a chyfrannu at geisiadau am gyllid ac adroddiadau.
6. Gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr, uwch dîm rheoli a'r Bwrdd I alinio nodau artistig gyda strategaeth y sefydliad.
7. Cynrychioli'r Galeri mewn digwyddiadau diwydiannol, rhwydweithiau a'r cyfryngau.

Rydym ni'n awyddus i glywed gennych chi am weledigaeth **greadigol, uchelgeisiol** ac **arloesol** all helpu'r cwmni i gyflawni ei nodau strategol.

Rydym ni'n chwilio am rywun sy'n deall y **cyd-destun heriol** rydym yn gweithredu ynddo, ac sydd â'r gallu i arwain Galeri fel **busnes cynaliadwy**, **llwyddiannus** ac sydd yn ymrwymedig i'n gwerthoedd.

# Disgrifiad y Swydd

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i: | **Prif Weithredwr** |
| Rheolwr llinell ar / Yn gyfrifol dros: | **Rheolwyr, Swyddogion a Gweinyddwyr y portffolio Artistig** |
| Amodau Gwaith: | Wedi'i leoli yn Galeri, bydd angen hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer rhaglen y cwmni.<br>Rôl arweiniol allweddol mewn sefydliad celfyddydol uchelgeisiol a pharchus.<br>Cyfle i lunio bywyd diwylliannol Caernarfon a'r rhanbarth.<br>Amgylchedd gwaith creadigol a chefnogol.<br>Pecyn cyflog a buddion cystadleuol. |

# Cyfrifoldebau

## Gweledigaeth Artistig

Datblygu a gweithredu gweledigaeth artistig Galeri a strategaeth greadigol hirdymor, a hynny o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Creu rhaglen arloesol ac amrywiol o berfformiadau byw, ffilmiau, arddangosfeydd a phrosiectau cymunedol.

Creu prosiectau newydd sy'n uchelgeisiol mewn cydweithrediad ag ystod eang o artistiaid, cyfarwyddwyr, cwmnïau a chymunedau, gan arwain fel arweinydd creadigol lle bo'n briodol.

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan feithrin cydweithrediadau rhyngwladol a diwylliannol.
Ehangu cynulleidfa Galeri trwy wneud dewis arloesol o gynyrchiadau, gan sicrhau safon uchel o waith ac ymroddiad i ragoriaeth bob amser.

Sicrhau bod rhaglen artistig Galeri yn un gynhwysol, sy'n cynrychioli ystod eang o bobl ac yn apelio atynt.

Adeiladu perthnasau gydag artistiaid, cwmnïau a phartneriaid diwylliannol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Adnabod a manteisio ar gyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a rhannu gwaith y cwmni ar lefel genedlaethol ac yn rhyngwladol a chodi proffil y cwmni fel cwmni Cymreig blaenllaw.

**Cyfrifoldebau Ychwanegol:**

Rheoli cyllidebau artistig a chyfrannu at geisiadau am gyllid ac adroddiadau.

Gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr, uwch dîm rheoli a'r Bwrdd i alinio nodau artistig gyda strategaeth y sefydliad.

Cynrychioli Galeri mewn digwyddiadau diwydiannol, rhwydweithiau a'r cyfryngau.

Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill



# Manyldeb y Person

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos y rhan fwyaf o'r nodweddion, y sgiliau a'r profiad canlynol:

Gweledigaeth gref a brwdfrydedd dros y celfyddydau cyfoes ar draws disgyblaethau.

Profiad o oruchwylio datblygiadau a phrosesau creadigol.

Dealltwriaeth gynhwysfawr o Gymru a'i chymuned ddiwylliannol.

Yn arweinydd cryf ac effeithiol mewn rôl greadigol neu artistig.

Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ymrwymiad i hybu'r iaith Gymraeg i ddarparu profiadau a chyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu cyfleoedd i ymgyfranogi ac i ddatblygu sgiliau.

Gallu i gyfleu gweledigaeth artistig y cwmni mewn modd ysbrydoledig i ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys y Bwrdd, staff artistiaid, cyllidwyr, y wasg a'r cyhoedd.

Profiad o reoli cyllidebau a gweithio'n gydweithredol gyda thimau amrywiol.

**Mae'r profiad a nodir isod hefyd yn ddymunol:**

Gwybodaeth am dirwedd y celfyddydau yng Nghymru a'r DU.

Profiad o gomisiynu gwaith newydd neu gyd-gynyrchiadau.

Profiad o godi arian neu gynhyrchu incwm.

Yn gyfarwydd â modelau mentrau cymdeithasol ac arferion gorau.

# I wneud cais

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd, am fanylion pellach neu i drafod y swydd cysylltwch â Nia Arfon, Prif Weithredwr

**nia.arfon@galericaernarfon.com**

I gyflwynno eich ffurflen cais

**swyddi@galericaernarfon.com**



galeri

Pecyn Recriwtio 2025

**Cyfarwyddwr Artistic**